**PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 7 Gorffennaf, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Miss. A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.C. Bird, Ms. B.E. Brooks, Mrs. C.A. Cave, Mrs. S.M. Hanks, Mrs. R. Nugent-Finn, A.C. Parker a Mrs. S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: Ms. H. Smith (Cynrychiolydd o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid) a Ms. C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg Cynrychiolydd) Cynghorwyr Mrs. J.E. Charles ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd L.O. Rowlands; Mrs. W. Davies, Mrs. G. Doyle a Mr. A. Raybould (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2020/21 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Dylid nodi Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2020/21.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI 2021 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CAU CYFRIFON 2020/21 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o dan-berfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22. (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Nodi bod y cam gweithredu a restrir fel rhai parhaus yn Atodiad B yr adroddiad (18 Medi 2019, Rhif Cofnod 299 – Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid – Adroddiad Monitro, Argymhelliad (2) Dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am y FestiVale nesaf er mwyn bod yn bresennol) fel un a gwblhawyd.

(3) Nodi y dylid cymeradwyo’r Blaenraglen Waith Flynyddol wedi ei diweddaru gan y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Ystyrir nad oes angen ystyried yr argymhelliad mwyach oherwydd bod y digwyddiad dan sylw yn cael ei ail-werthuso fel rhan o adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

(3) Er gwybodaeth.